Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 25 Medi 2017, am 7:00p.m.

**PRESENNOL**: Y Cynghorydd Jim Bryan (Maer).
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams ac Emrys Wynne. Hefyd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

## 86. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Geraint Woolford ac Ifan Wyn.

## 87. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fuddiannau personol fel a ganlyn: Eitem 4 – Cais am gymorth ariannol gan Grŵp Cymuned Rhuthun – Y Cynghorydd Dave Snape. Eitem 16 – Cais am gymorth ariannol gan Bwyllgor Neuadd Ambiwlans Rhuthun – Y Cynghorydd Stephen Beach.

## 88. CYFLWYNO COPI GIDEON O'R YSGRYTHURAU I'R MAER

Croesawodd y Maer Mr Trebor Roberts a ddywedodd ychydig o eiriau ac yna cyflwyno copi Gideon o'r Ysgrythurau iddo.

## 89. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – GRŴP CYMUNED RHUTHUN

Croesawyd Mr Ron Bell, Cadeirydd Grŵp Cymuned Rhuthun i'r cyfarfod gan y Maer i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch y cais am gymorth ariannol ar gyfer dathliadau Calan Gaea far Sgwâr Sant Pedr. Holodd yr aelodau gwestiynau ynghylch y trefniadau diogelwch, trefniadau cau ffyrdd, cost band byw a'r ffi am y tân gwyllt. Gofynnwyd hefyd am ragor o wybodaeth am y ffioedd ymgynghori a'r ffioedd rheolaeth y cyfeiriwyd atynt yn y cyfrifon ac a oedd Grŵp Cymuned Rhuthun wedi gwneud cais am gyllid Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned gan Heddlu Gogledd Cymru.
***PENDERFYNWYD:*** *gohirio'r cais am fis i dderbyn manylion y costau a manylion y trefniadau iechyd a diogelwch.*

## 90. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

20.07 Cyfarfod Clwstwr Cyngor Sir Ddinbych i Gadeiryddion a Chlercod
24.07 Sesiwn galw heibio ynghylch maes parcio Heol y Parc
31.07 Beirniadu'r arddangosfeydd blodeuol
01.08 Agor arddangosfa'r Grŵp Arlunio yn Eglwys Sant Pedr
07.08 Cyfarfod gyda Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ddinbych
12.08 Agor Truckfest yng Nghaerwys
14.08 Cyfarfod Pwerau Brys
19.08 Cyflwyno cwpanau yn Sioe Flodau Rhuthun
02.09 Drysau Agored Sir Ddinbych – penwythnos Rhuthun ac archwilio'r cadetiaid yn seremoni Ailgadarnhau Rhyddid y Sir i'r Cymry Brenhinol
03.09 Gwasanaeth Dinesig Treffynnon
07.09 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun
11.09 Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli Awelon
14.09 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg
17.09 Gwasanaeth Dinesig Rhuddlan
22.09 Noson codi arian elusen Cymdeithas Strôc yn Y Ganolfan, Llanfwrog
24.09 Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, Eglwys Sant Tomos, Y Rhyl a Gwasanaeth Dinesig Towyn a Bae Cinmel.
25.09 Croesawu cynrychiolwyr o dîm Rasio Prifysgol Caerdydd gyda'u car, Gwyneth, wrth gofeb Tom Pryce.

## 91. ADRODDIADAU'R AELODAU

| | |
|---|---|
| Cyng. Ian Lewney | Cyfarfod Pwerau Brys a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun |
| Cyng. Keiran Allsopp-Robson | Ailgadarnhau Rhyddid y Sir i'r Cymry Brenhinol a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun |
| Cyng. Stephen Beach | Cyfarfod gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Drysau Agored, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a'r diwrnod amgylcheddol yng Nghlwb Rygbi Rhuthun ynghylch baw cŵn |
| Cyng. Gavin Harris | Dim i'w adrodd |
| Cyng. Ken Hawkins | Dim i'w adrodd |
| Cyng. Rosie Hughes | Dim i'w adrodd |
| Cyng. Robert Owen-Ellis | Banc bwyd x 10 sesiwn, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, casgliad bwyd yn Tesco Rhuthun – cyfrannodd cwsmeriaid 565kg o fwyd a £68.52 i'r Banc Bwyd a Chyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon |
| Cyng. Menna Jones | Beirniadu'r arddangosfeydd blodeuol, cyfarfod Pwerau Brys, Sioe Flodau Rhuthun, Drysau Agored ac Ailgadarnhau Rhyddid y Sir i'r Cymry Brenhinol |
| Cyng. Anne Roberts | Cyfarfod gweithgor statws croesawu bysiau moesau i Rhuthun, dosbarthu taflenni twristaidd ar Sgwâr Sant Pedr, sesiwn galw heibio ynghylch maes parcio Heol y Parc, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, beirniadu'r arddangosfeydd blodeuol, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch x 2, Fforwm i'r rhai dros 50 yn Llys Erw, ailgadarnhau Rhyddid y Sir i'r Cymry Brenhinol a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun |
| Cyng. Dave Snape | Sioe Flodau Rhuthun |
| Cyng. Heather Williams | Cyfarfod gweithgor statws croesawu bysiau moesau i Rhuthun |
| Cyng. Geraint Woolford | Pwyllgor Sioe Rhuthun, siop dros dro Sioe Rhuthun, Sioe Rhuthun, Drysau Agored ac Ailgadarnhau Rhyddid y Sir i'r Cymry Brenhinol |
| Cyng. Ifan Wyn | Cyfarfod gyda swyddogion Menter Iaith Sir Ddinbych a chyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg |
| Cyng. Emrys Wynne | Sesiwn galw heibio ynghylch maes parcio Heol y Parc, Sioe Flodau Rhuthun, Fforwm i'r rhai dros 50 oed yn Llys Erw, sesiwn galw heibio ynghylch Teithio Llesol yn Neuadd y Sir ac Ailgadarnhau Rhyddid y Sir i'r Cymry Brenhinol |

## 92. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

***PENDERFYNWYD****: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2017 yn gywir.*

## 93. MATERION YN CODI

Adroddodd y Maer ei fod wedi ymweld â'r disgybl a wnaeth gais am gyllid ar gyfer cwpwrdd diffibrilydd yn Ysgol Stryd y Rhos, ac roedd pawb yn cytuno y dylid gosod hwn ar safle'r ysgol newydd yng Nglasdir.

## 94. COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG

***PENDERFYNWYD****: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Awst 2017 yn gywir.*

## 95. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 96. Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Awst 2017.*

**97. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017.
***PENDERFYNWYD****: derbyn y cofnodion.*

**98. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017.
***PENDERFYNWYD****: derbyn y cofnodion.*

**99. DYDDIADAU CYFARFODYDD YN 2018**
Cyflwynwyd rhestr o ddyddiadau arfaethedig ar gyfer Cinio Elusennol y Maer a chyfarfodydd cyffredin a chyfarfodydd Pwyllgorau am y flwyddyn i ddod.
***PENDERFYNWYD****: derbyn y dyddiadau.*

**100. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYMDEITHAS CYMUNED LLANFWROG**
Bu'r aelodau'n ystyried cais am £1,200 o gymorth ariannol tuag at yr arddangosfa tân gwyllt blynyddol a drefnir gan y gymdeithas uchod.
***PENDERFYNWYD****: darparu £1,200 o gymorth ariannol tuag at yr arddangosfa tân gwyllt.*

**101. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – PWYLLGOR NEUADD AMBIWLANS RHUTHUN**
Ystyriodd yr aelodau gais am £500 o gymorth ariannol tuag at drwsio to'r Neuadd Ambiwlans.
***PENDERFYNWYD****: darparu £500 o gymorth ariannol tuag at gostau trwsio to'r neuadd.*

**102. PRYDERON TRIGOLION GLASDIR**
Bu'r aelodau'n ystyried neges e-bost oddi wrth un o drigolion Glasdir, Elena Vardoulaki, ynghylch materion ar y safle datblygu ac fe'i gwahoddwyd i anerch y cyfarfod i esbonio'r pryderon yn fanylach. Hysbyswyd yr aelodau bod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych a Jason Berry o Taylor Wimpey.
***PENDERFYNWYD****: anfon llythyr i Taylor Wimpey ynghylch y pryderon, yn gwahodd yr holl bartïon i gyfarfod gyda'r nod o ddatrys y problemau.*

**103. CALENDR ELUSENNOL Y MAER**
Cyflwynodd y Maer gais i dalu am galendrau elusen y Maer o gyfrif Cyngor Tref Rhuthun yn gyntaf, i'w ad-dalu maes o law o elw gwerthu'r calendrau.
***PENDERFYNWYD****: cytuno i'r cais hwn.*

**104. TYSTYSGRIF ARCHWILIO AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ARIANNOL**
Cyflwynodd y Clerc Dystysgrif Archwilio barn ddiamod Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Adroddiad Materion yn Codi yn cyfeirio at ddau fater ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017.
***PENDERFYNWYD****: derbyn y Dystysgrif Archwilio a chymeradwyo'r camau gweithredu i sicrhau nad yw'r materion yn yr adroddiad yn digwydd eto.*

**105. DATGANIAD ARIANNOL**
Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2017.
***PENDERFYNWYD****: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2017.*

**206. CYFRIFON I'W TALU**
***PENDERFYNWYD****: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5081 | Llanfwrog CIC | Torri glaswellt - Medi | £342.00 |
| 5082 | Llanfwrog CIC | Gwasanaeth dyfrio'r basgedi crog x 8 | £1144.00 |
| 5083 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol | £274.90 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5084 | Walsh Trophies | Engrafu'r cwpanau Arddangosfeydd Blodeuol | | £10.00 |
| 5085 | Marian Rees | Cyfieithu ar y pryd, 11 a 25 Medi | * | £180.00 |
| 5085 | Cyng. Jim Bryan | Ail daliad lwfans y Maer | | £600.00 |
| 5087 | Blachere Illumination UK Ltd | Blwyddyn gyntaf 2017 ffi hurio cytundeb hurio tair blynedd | * | £3,789,25 |
| 5088 | Elevator Design Limited | Lletya'r wefan a thystysgrif SSL certificate | * | £186.00 |
| D.U. | BT Business | Gwasanaethau ffôn | * | £115.00 |
| 5091 | Boyns Net | Llwybrydd ADSL newydd | * | £48.00 |

**107. GWASANAETHAU BAND EANG A FFÔN CYNGOR TREF RHUTHUN**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu contractau gyda BT Business:
Band eang safonol heb gyfyngiadau - £22 y mis am 24 mis neu fand eang ffibr heb gyfyngiadau - £20 y mis am y 12 mis cyntaf ar gontract 24 mis, yn cynyddu i £35 y mis am y 12 mis olaf.
Rhentu llinell ffôn - £16.50 y mis ar gontract 24 mis.
***PENDERFYNWYD****: adnewyddu'r gwasanaeth band eang safonol heb gyfyngiadau a rhentu'r llinell ffôn gyda BT Business.*

**RHAN DAU**

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau isod heb i'r wasg a'r cyhoedd fod yn bresennol oherwydd ei bod yn debygol datgelu gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf).

**108. CYFLOG CLERC Y DREF**

Derbyniodd yr aelodau fanylion am gyflog Clerc y Dref a gofynnwyd iddynt gadarnhau'r swm a oedd yn ddyledus a'r costau a hawliwyd.
***PENDERFYNWYD****: derbyn y manylion a thalu'r symiau sy'n ddyledus.*

**109. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

***PENDERFYNWYD****: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 23 Hydref 2017 am 7.00pm.*